



PATRYMAU IAITH P-aC₁

CYNNWYS

	Tudalen
Patrymau iaith	3
Iaith bob dydd	4
Gweithgareddau	13
Mynegi barn	14
Siarad am y gorffennol	15
Gofyn am wybodaeth a'i rhoi	16
Lleoliad a chyfeiriad	19
Disgrifio	20
Trafod 'biau'	22
Trafod yr amser	23
Chwarae gemau	24
Y synhwyrâu	25
Gweithgareddau chwarae rôl	26
Gweithgareddau tu allan	27
Gwyllo'r DVD	30
Darllen	31
Geirfa a phatrymau sy'n berthnasol i feysydd eraill o'r cwricwlwm	32
Addysg gorfforol	33
Celf a dylunio	36
Cerddoriaeth	38
Daearyddiaeth	39
Dylunio a thechnoleg	41
Gwyddoniaeth	44
Hanes	47
Mathemateg	48
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	52

Patrymau iaith

Bwriad y ddogfen hon yw eich helpu chi i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn ystod y dydd ac wrth gyflwyno gwahanol feysydd o'r cwricwlwm.

Gallech chi ddefnyddio'r patrymau iaith sydd i'w gweld o dan y pennawd **Iaith bob dydd** yn achlysurol drwy gydol y dydd, yn y dosbarth, ar yr iard ac ati, e.e. gofyn am ganiatâd, mynegi barn, gofyn am wybodaeth a.y.b.

Mae patrymau eraill yn fwy penodol ac maen nhw'n berthnasol i sefyllfaoedd sy'n gallu codi yn ystod y dydd, e.e. wrth chwarae rôl, wrth siarad am y gorffennol, wrth ddarllen, wrth gyflwyno'r DVD neu wrth chwarae gemau a.y.b. Cyn ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, gallech chi argraffu'r tudalennau perthnasol a'u cadw nhw gerllaw i'ch helpu chi gyda'r sesiwn.

Mae'r rhestri hyn yn eitha cynhwysfawr ac maen nhw wedi'u rhannu yn batrymau iaith y gallai'r disgyblion fod wedi dod ar eu traws yn ystod y Cyfnod Sylfaen, ond sydd hefyd yn cael eu defnyddio yn y pecyn hwn, ac yn batrymau iaith sy'n datblygu'r patrymau hynny ymhellach. Peidiwch â digalonni os nad yw'r plant wedi dysgu'r holl batrymau yng nghlofn y Cyfnod Sylfaen. Cyn bo hir, byddan nhw'n dod i ddeall beth yw ystyr y geiriau a'r patrymau gan eu bod yn cael eu hailadrodd a'u hatgyfnerthu mewn gwahanol adrannau ar y DVD. Y gobaith yw y bydd y plant eu hunain yn eu defnyddio nhw cyn bo hir.

Yn ogystal â'r patrymau cyffredinol hyn, mae geirfa a phatrymau iaith sy'n berthnasol i wahanol feysydd o'r cwricwlwm yn cael eu rhestru ar dudalennau 32-52¹. Mae'r rhain yn cynnwys geirfaoedd a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes, ond yma, maen nhw'n cael eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. Dyna yw hanfod dysgu ail iaith - trosglwyddo geiriau, ymadroddion a phatrymau o un sefyllfa i'r llall. Mae rhai geiriau newydd yn y rhestri hyn ond maen nhw'n cael eu defnyddio o fewn patrymau cyfarwydd, e.e. **cerddoriaeth**

Beth am gyfansoddi cerddoriaeth?

Beth am berfformio cerddoriaeth?

Gobeithio y bydd y rhain yn eich helpu chi i gyflwyno gwersi / rhannau o wersi drwy gyfrwng y Gymraeg. Beth am ddarllen drwy'r rhestri, dewis y patrymau sydd fwyaf addas i'ch anghenion chi a defnyddio'r rhai hynny fel man cychwyn? Yna'n raddol, gallech chi ddefnyddio mwy o eiriau, ymadroddion a phatrymau, gan gyflwyno mwy a mwy o Gymraeg i'r ystafell ddosbarth.

¹Daw rhai o'r patrymau trawsgwricwlaidd hyn o ddogfen sydd heb ei chyhoeddi ac sydd wedi'i chreu gan Raglen Genedlaethol DPP y Gymraeg a Chyfrwng Cymraeg CBAC, sydd hefyd wedi ffilmio enghreifftiau o ddysgu rhannau eraill o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir gweld y rhain ar wefan GCaD drwy glicio ar [Rhaglenni Cenedlaethol DPP y Gymraeg a Chyfrwng Cymraeg CBAC](#) a dilyn Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 - Cymraeg Ail Iaith > [Datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg](#).

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Os gwelwch yn dda. Diolch. Dim diolch. Pardwn? O'r gorau. Da iawn. Da iawn, bawb! Bendigedig. Gwych. Rwyf ti'n glyfar iawn. Eitha da. Ardderchog. Ga i help os gwelwch yn dda? Cei. Gawn ni fynd? Gawn ni ddod i mewn? Cewch. Na chewch. Dim problem! Wedi gorffen. Dyna ni – wedi tacluso. Mawredd mawr! O diar! Bobl bach! Nefi bliw! Hwyl fawr.	Ga i ofyn cwestiwn? Ga i weld y map? Dim heddiw. Y tro nesa. Bois bach! Nefi wen! O, mam fach!	• wrth dderbyn neu wrthod rhywbeth • pan fyddwch chi eisiau i rhywbeth gael ei ail-adrodd • wrth wneud sylw am waith disgyblion • ar hap, drwy gydol y dydd • ar ôl gweithgareddau • fel ebychiadau drwy gydol y dydd • Ar ddiwedd y dydd

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Sut wyt ti? wedi blino: Dw i wedi blino. Dw i wedi blino'n lân. hapus: Dw i'n hapus. trist: Dw i'n drist. iawn: Dw i'n iawn, diolch. da iawn: Dw i'n dda iawn, diolch. sâl: Dw i'n sâl. oer: Dw i'n oer. crac: Dw i'n grac. gwell: Dw i'n well. bendigedig Beth sy'n bod? Dw i'n sâl (iawn). Dim byd. Barod? Barod. Ydych chi'n barod? Ydyn. Wyt ti'n barod? Ydw. Nac ydw.	Dw i'n nerfus. Dw i'n teimlo'n nerfus. Dw i'n teimlo'n ofnus. Dw i'n teimlo'n ofnus iawn. Dw i'n teimlo'n gyffrous. Wyt ti'n teimlo'n well? Ydw, diolch. Nac ydw. Ydych chi'n teimlo'n well? Ydyn, diolch. Nac ydyn. Wyt ti'n barod? Un funud. / Un munud.	• adeg cofrestru • wrth chwarae rôl • i fynegi teimladau, e.e. Dw i'n nerfus. Dw i'n <u>teimlo'n</u> nerfus. • cyn gweithgareddau

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Y tywydd		- fel cwestiwn neu sylw ar rywbeth cyn mynd tu allan - pan fyddwch chi'n dymuno siarad am y tywydd
Sut mae'r tywydd? Sut mae'r tywydd heddiw? Mae'n oer. Mae'n braf. Mae'n heulog. Mae'n wyntog. Mae'n bwrw glaw. Mae'n bwrw eira. Mae'n rhewi. Mae'n boeth. Gwrandewch ar y gwynt yn chwythu.	Mae'n stormus. Mae'n oer iawn, iawn, iawn. Mae'n rhewi. Mae'n minws pum(p) gradd Celsius.	
Cyflwyno		- i gyflwyno pobl neu bethau - wrth gyflwyno rhywbeth i rywun
Dyma ... Dyma lyfr. Dyma syrpreis i ti. Dyma syrpreis i chi. Dyma'r ... Dyma'r llyfr.	Dyma Poli, fy ffrind i. Dyma Wil - mae e'n / o'n ffrind i fi. Dyma'r llong. Enw'r llong ydy Matilda.	

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Rhannu		• wrth rhannu pethau rhwng y plant • pan fydd plant yn rhannu; dylid eu hannog i ddweud Diolch ar ôl ei dderbyn.
Un ... i ti ac un i fi. Dyma ti ... brechdan ham. Rhaid rhannu. Dw i'n rhannu.		
Cymryd tro		• wrth chwarae gemau • wrth gymryd tro yn ystod y dydd, e.e. wrth ymgymryd â gweithgareddau ar y cyfrifiadur • wrth gyflwyno canlyniadau, e.e. ras neu gystadleuaeth
Tro pwy? Tro ... Fflic yn gynta(f). Ti sy nesa. Fi sy nesa. Ga i dro? Cei, wrth gwrs. Un funud. / Un munud. cynta: yn gynta(f) John gynta. John yn gynta(f). ail: yn ail Alys yn ail. trydydd: yn drydydd Ffion yn drydydd.	Fy nhro i nesa. Dy dro di nawr / rŵan. Dy dro di i gicio.	

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Ymddiheuro		• wrth ymyrryd, e.e. mewn gweithgaredd neu sgwrs • i ymddiheuro mewn unrhyw sefyllfa • wrth ymateb i ymddiheuriad
Esgusodwch fi. Mae'n ddrwg gen i. Mae'n flin gyda fi. Dim problem! Dim ots!		
Cynnig		• i gynnig, derbyn a gwrthod pethau • mewn sefyllfa chwarae rôl • wrth gynnig rhywbeth • i ofyn / gwneud cais am rhywbeth • wrth gynnig / cyflwyno rhywbeth
Wyt ti eisiau ...? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Wyt ti eisiau help? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Dim diolch. Beth wyt ti eisiau i yfed? ... os gwelwch yn dda. Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda. Dyma ti. Dyma chi. Helpa dy hun.	Beth wyt ti eisiau i fwyta? Beth wyt ti eisiau i ginio?	

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Gofyn am bethau		• wrth ofyn am bethau • wrth ganiatáu neu wrthod cais • mewn sefyllfaoedd chwarae rôl
Ga i ... os gwelwch yn dda? Ga i'r... os gwelwch yn dda? Cei, wrth gwrs. Na chei. Dw i eisiau ... Dw i ddim eisiau ... Dw i eisiau bwyd.		
Gofyn am ganiatâd		• i ofyn am ganiatâd i wneud rhywbeth • wrth roi caniatâd neu'i wrthod
Ga i w eld? Cei. Na chei. Gawn ni f ynd os gwelwch yn dda? Gawn ni d dod i mewn? Cewch. Na chewch.	Ga i w eld y map? Ga i f ynd i chwilio am fwyd? Gawn ni chwilio am y trysor yn gyflym?	

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Siarad am "hoffi" a "ddim yn hoffi"		
Dw i'n hoffi ... Dw i'n hoffi nwdls. Dw i'n hoffi nwdls yn fawr. Dw i ddim yn hoffi'r sanau. Ych a fi! Wyt ti'n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n hoffi ...? Ydyn. / Nac ydyn. (Ry)dyn ni'n hoffi chwarae tennis yn y parc.	Dw i'n hoffi cadw'n heini. Mae Culhwch yn hoffi Olwen yn fawr. Dw i ddim yn hoffi'r bwyd. Ydych chi'n hoffi antur? Ydyn. / Nac ydyn. hoff ... Beth ydy dy hoff fwyd di? Fy hoff fwyd i ydy pasta.	• wrth drafod "hoffi" a "ddim yn hoffi" mewn unrhyw gyd-destun • wrth drafod hoff bethau

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Gorchmynion		
Gorchmynion "Ti": Edrycha. Gwranda. Chwilia am ... Dere. / Tyrd. Teimla ... Dyfala. Pwysa. Pwysa'r botwm. Gorchmynion "Chi": Edrychwch. Edrychwch ar y patrwm. Gwrandewch. Darllenwch gyda fi. Neidiwch. Cerddwch. Sefwch. Trowch. Dewch i weld. Arhoswch. Dyfalwch. Chwiliwch am y ... Stopiwch! Rhedwch. Byddwch yn dawel. Byddwch yn ofalus. Gwnewch setiau o ... Copïwch (fi). Torrwch. Symudwch. Ysgrifennwch.	Meddylia. Sefa. Sefa tu ôl i'r llinell. Meddyliwch. Meddyliwch am syniadau. Sefwch mewn llinell. Byddwch yn ofalus iawn. Symudwch fel ceffylau bach. Ysgrifennwch restr.	- gydag unigolion - gyda grwpiau - i roi cyfarwyddiadau - i egluro rheolau - i egluro trefn/dull gweithredu - i chwarae gemau

IAITH BOB DYDD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Gorchmynion		
Rhaid ... Rhaid gwisgo Rhaid aros. Rhaid bwyta bwyd iach. Rhaid gwisgo sbectol haul. Rhaid mesur. Dim ...! Dim sŵn! Dim gweiddi! Dim ar y gornel! Dim tu ôl i'r car!	Rhaid bod yn ofalus. Rhaid bod yn ofalus iawn. Rhaid chwilio am ... Rhaid meddwl. Rhaid meddwl am syniadau da. Dim ...! Shh, dim siarad. Dim symud. Dim cweryla / ffraeo. Peidiwch ... Peidiwch diuno ... (De Cymru) Peidiwch deffro ... (Gogledd Cymru)	- fel gorchymyn neu wrth siarad am beth sydd raid i mi, ti, a ni ei wneud – gellir defnyddio rhaid yn unrhyw gyd-destun - fel y bo'n addas drwy gydol y dydd – wrth ddweud wrth rywun am beidio â gwneud rhywbeth - wrth ddweud wrth fwy nag un person i beidio â gwneud rhywbeth

MYNEGI BARN

Gellir gweld awgrymiadau pellach yn yr adran dan yr enw **Gwyllo'r DVD**, t.30 a **Darllen**, t.31 a hefyd yn y canllawiau cam-wrth-gam ble anogir y disgyblion i fynegi eu barn am y DVD.

Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
hwyl: Mae'n hwyl. grêt: Mae'n grêt. gwyh: Mae'n wych. ffantastig: Mae'n ffantastig. da iawn: Mae'n dda iawn. ardderchog: Mae'n ardderchog. hyfryd: Mae'n hyfryd. hardd: Mae'n hardd. blasus: Mae'n flasus. ofnadwy: Mae'n ofnadwy. Roedd e'n grêt. Roedd o'n grêt.	hwyl: Mae'r parc yn hwyl! cŵl: Mae'n cŵl. diddorol: Mae'n ddiddorol. lwcus: Mae Crad yn lwcus. doniol: Mae Crad yn ddoniol. smart: Rwy't ti'n smart. lliwgar: Mae'n lliwgar. Ych a fi! Dw i'n hoffi ... achos ... Dw i'n hoffi cinio ysgol achos mae'n flasus. Dw i'n hoffi cadw'n heini achos mae'n hwyl. Roedd e'n / o'n anhygoel - yn wych, yn ffantastig, yn ddiddorol - yn anhygoel.	• wrth fynegi barn am unrhyw beth • wrth fynegi barn am y gorffennol – defnyddiwch roedd

SIARAD AM Y GORFFENNOL		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Es i i'r ... Es i i'r sinema. Es i i'r parc. Es i ar ... Es i ar y bws. Ces i ... Ces i lolipop. Gwelais i ... Gwelais i jiráff. Roedd e'n ... Roedd o'n ... Wyt ti wedi ...? Wyt ti wedi bwyta'r losin / fferins? Ydw. Nac ydw.	Es i i'r Arctig. Es i i'r Diwrnod o Hwyl a Sbri. Es i i'r farchnad i brynu bwyd. Es i i'r farchnad i brynu bwyd gyda Ffion. Es i i'r cae chwarae i chwarae pêl-droed gyda Ffion. Ces i iogwrt. Gwelais i Irniq. Gwelais i hysgi. Roedd e'n ddiddorol iawn. Roedd o'n ddiddorol iawn. Roedd teithio yn yr Arctig yn anhygoel.	• wrth sôn am beth wnaeth y plant, e.e. dros y penwythnos, neithiwr a.y.y.b • i fynegi barn am y gorffennol – defnyddiwch roedd • i ofyn ydy'r plentyn wedi gwneud rhywbeth

GOFYN AM WYBODAETH A'I RHOI		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Pwy ...?		• wrth gyfarfod â rhywun newydd • i ofyn pwy sy'n gwneud rhywbeth
Pwy wyt ti? ... ydw i. Pwy sy 'na? Pwy sy gynta? Pwy sy nesa? Pwy sy'n ...?		
Ble ... ? (Gweler yr adran Lleoliad a chyfeiriad hefyd, t.19.)		• wrth chwilio am rywun neu rywbeth – defnyddiwch y patrwm hyd yn oed os nad ydych yn cofio'r gair Cymraeg!
Ble mae Nia? Ble mae'r llyfr? Dyma'r llyfr. Ble mae (John) yn cuddio? Ble (r)wyt ti? Ble mae e / o? Ble (r)wyt ti'n byw? Dw i'n byw yn ... Mae ... yn byw yn ... Dw i ddim yn gwybod. Ble (r)wyt ti'n mynd? Dw i'n mynd i'r siop. Ble (r)ydydych chi'n mynd? (Ry)dyn ni'n mynd i'r tywod.	Ble ydyn ni?	

GOFYN AM WYBODAETH A'I RHOI		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Beth ...?		
Beth ydy ...? Beth ydy hwn? Beth ydy mêl? Beth ydy'r rhain? Beth ydy'r sŵn? Beth ydy'r ffrwythau yma? Beth ydy'r llysiau yma? Beth ydy e / o? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n torri allan. Beth ydych chi'n wneud? (Ry)dyn ni'n darllen. Beth sy ...? Beth sy yn y dŵr? Beth sy yn y bag? Beth sy yn y llun? Beth arall?	Beth ydy cacennau cri? Beth ydy cennin? Beth wyt ti'n gallu weld? Beth wyt ti'n wisgo? Beth wyt ti'n fwyta? Beth sy yn y cae? Beth sy yn yr ardd? Beth sy yn Llandudno?	- mewn unrhyw gyd-destun – gellir cynnig yr ateb yn Saesneg os nad yw'n gwybod y Gymraeg, e.e. Oedolyn: Beth ydy'r rhain? Plentyn: Seeds. Oedolyn: Da iawn. Hadau. - yn ystod y dydd e.e. pan fydd y plant wrth eu gwaith - i gyflwyno gwrthrychau hefyd, e.e. Beth sy yn y bocs? Gellir dilyn hyn gyda'r gorchymyn Dyfalwch! neu Dyfala!

GOFYN AM WYBODAETH A'I RHOI		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Ydy? Ydy (Fflac) o flaen y goeden? Ydy ... yn dda i ti / chi? Ydy. / Nac ydy.		yn ystod y dydd e.e. Ydy Lois yma? Ydy. Nac ydy.
Oes ...? Oes bara yn y bocs? Oes grawnwin yn y bocs? Oes. / Nac oes.	Oes crib yn y drôr?	fel y bo'n addas yn ystod y dydd, e.e. Oes llyfr ar y bwrdd? Oes. / Nac oes.
Pam? Pam? Pam wyt ti'n hoffi'r llyfr?	Pam wyt ti'n gwisgo'r dillad yna?	
Achos dw i'n hoffi'r lluniau. ... mae'r stori'n dda.	Achos dw i eisiau ymarfer.	i ateb cwestiynau sy'n dechrau gyda Pam? - defnyddiwch achos
Pa (+ treigladd meddal) ...? Pa dd illad? Pa f wyd? Pa liw ydy sgarff y dyn eira? Pa ff ordd? I'r ch with. I'r d de. Pa d diod?		- i wahaniaethu rhwng pethau – defnyddiwch Pa? - i ddweud pa ffordd i fynd – defnyddiwch i'r chwith ac i'r dde
Pryd ...? Pryd mae'r trên yn mynd?	Pryd wyt ti'n beicio? Ar ddydd Sadwrn. Bob dydd Sadwrn.	fel y bo'n briodol yn ystod y dydd

LLEOLIAD A CHYFEIRIAD		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
yn y dŵr ar y beic o dan y bocs o flaen y llyfrau tu ôl i'r goeden mewn llinell dros y dŵr o dan y dŵr i mewn i'r dŵr i lawr i fyny ac i lawr 'nôl a 'mlaen drwy'r / trwy'r twnnel allan o'r twnnel yn ôl i'r dosbarth o gwmpas Pa ffordd? i'r chwith i'r dde heibio i'r coed i'r ochr ar draws ar draws yr afon yma Mae llygoden yma.	wrth y tân Does dim crib yn y drôr. Does dim crib yn y cwpwrdd. Mae'r golau'n symud i'r chwith ... i'r dde ...	- fel ymateb i'r cwestiwn Ble mae'r ...? - i ddweud ble mae pethau, e.e. Mae pensil yn y drôr. Y ffurf negyddol yw: Does dim pensil yn y drôr. - i ddweud wrth ddisgybl am "ddod yma", e.e. Tyrd yma. (Gogledd Cymru) Dere yma. (De Cymru) Dewch yma .

DISGRIFIO		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Lliwiau Pa liw ydy hwn? Pa liw ydy'r cwpan? sos coch letys gwyrdd balŵn mawr, gwyrdd balŵn bach, glas tywyll brown tywyll llwyd tywyll golau brown golau llwyd golau mawr: yn fawr bach: yn fach sych: yn sych gwlyb: yn wlyb rhy ... rhy fach rhy fawr llawn: yn llawn gwag: yn wag hwyl: Mae'n hwyl. blasus: Mae'n flasus. Mae'n flasus iawn. hyfryd: Mae'n hyfryd.	tywyll papur crêp glas tywyll golau papur crêp glas golau dyn mawr, mawr rhy hwyr cŵl: Mae Lyn yn cŵl. lwcus: Mae ... yn lwcus. doniol. Mae'r DVD yn ddoniol. diddorol: Mae'r llyfr yn ddiddorol.	- i ofyn pa liw ydy gwrthrych, e.e. Pa liw ydy'r ...? - i siarad am liw unrhyw wrthrych, e.e. llyfr glas - i ddisgrifio arlliw tywyll a golau, ond sylwch y daw tywyll a golau ar ôl ar ôl y lliw - i ddisgrifio, ond sylwch y daw'r ansoddair ar ôl yr enw: llygaid mawr

DISGRIFIO		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
iach: bwyd iach yn dda: Mae afal yn dda i ti / chi. Mae ffrwythau'n dda i ti. Mae llysiau'n dda i ti. Ydy ... yn dda i ti / chi? Ydy. / Nac ydy. yn gyflym yn glou (De Cymru) yn araf Roedd y ffilm yn ardderchog. Roedd y ... yn ffantastig. Roedd e'n / o'n grêt! fel ... Dw i'n cerdded fel cawr. Symudwch fel trên.	hir: bara hir byr: bara byr Mae iogwrt yn dda i ti. Mae bara brown yn dda i chi. Mae e fel cawr. Symudwch fel ceffylau bach.	• wrth drafod bwyd iach • i ddisgrifio gweithred neu sut mae rhywbeth yn digwydd • i ddisgrifio rhywbeth yn y gorffennol • i ddisgrifio sut mae gwneud rhywbeth – defnyddiwch fel

TRAFOD 'BIAU'		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
biau biau'r Pwy biau'r cap? Y cawr biau'r cap. Fi biau'r ... Fi biau'r cap.		• wrth siarad am eiddo e.e. os yw rhywun yn dod o hyd i eitem: Pwy biau'r bag? • wrth drafod stori neu luniau mewn llyfr stori e.e. Pwy biau'r bag?

TRAFOD YR AMSER Gweler t.50 hefyd.		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Dyddiau'r wythnos Dydd Sul Dydd Llun Dydd Mawrth Dydd Mercher Dydd Iau Dydd Gwener Dydd Sadwrn heddiw yfory ddoe yn y bore y gwanwyn yr haf yr hydref y gaeaf	Pryd wyt ti'n beicio? Ar ddydd Sadwrn. Bob dydd Sadwrn. yna wedyn Rhaid chwilio am y trysor ac yna mynd adre. Pryd mae Dydd Gŵyl Dewi? Mawrth y cynta.	i drafod hamdden, mynd i glwb ac ati.

CHWARAE GEMAU Gweler yr adran dan yr enw Gorchmynion hefyd, tt. 11-12		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Beth am chwarae gêm? Tafla'r dis. Tro pwy? Tro ... John yn gynta(f). Ti sy nesa. Fi sy nesa. John gynta. Alys yn ail. Ffion yn drydydd. Ga i dro? Cei, wrth gwrs. Un funud. / Un munud. Tria eto. Wedi gorffen. Wedi ennill. Dw i wedi ennill. Mae'n hwyl! Ga i'r ...? Ga i'r cownter? Cei, wrth gwrs. Dyma ti. Gawn ni chwarae ...? Cewch, wrth gwrs. Na chewch. Edrycha. Edrychwch. Dim pipo. Caewch eich llygaid. Agorwch eich llygaid.	Fy nhro i. Fy nhro i nawr / rŵan. Fy nhro i nesa. Dy dro di. Dy dro di nawr / rŵan. Dy dro di i gicio. Caea dy lygaid. Wyt ti'n gallu gweld? Wyt ti'n siŵr?	• wrth chwarae pob math o gemau, yn cynnwys gemau rhyngweithiol • wrth chwarae gemau cofio neu guddio gwrthrychau • yn ystod gweddïau

Y SYNHWYRAU		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Teimlo Teimla'r siâp. Teimlwch y dail. Beth wyt ti'n deimlo? Dw i'n teimlo ... Wyt ti eisiau teimlo'r bag? Ydych chi eisiau teimlo'r bag? Gweld Beth wyt ti'n weld? Beth wyt ti'n weld ar lan y môr? Dw i'n gweld ... Clywed Beth wyt ti'n glywed yn y goedwig? Dw i'n clywed ... Dw i'n clywed sŵn. Wyt ti'n clywed sŵn? Ydw. Nac ydw. Arogli Dw i'n arogli crempog. Dw i'n arogli cinio.	Teimla fe / fo. Beth wyt ti'n gallu gweld? Dw i'n gallu gweld ... Wyt ti'n gallu clywed sŵn? Ydw. Nac ydw. Dw i'n arogli sosejis.	- mewn amryw sefyllfaoedd, e.e. wrth fynd am dro, wrth edrych drwy'r ffenest, o amgylch yr ysgol - wrth drafod beth mae'r disgyblion yn gallu ei weld / glywed - anogwch nhw i ddefnyddio'r patrwm Cymraeg, hyd yn oed os ydyn nhw'n defnyddio'r gair Saesneg am y gwrthrych

GWEITHGAREDDAU CHWARAE RÔL

Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Siopa Bore da. Prynhawn da. Sut wyt ti? Ga i foron os gwelwch yn dda? Ga i'r ...? Ga i'r ... hefyd, os gwelwch yn dda. Cei, wrth gwrs. Dyma ti. O, diar! Does dim ... Beth wyt ti eisiau? Dw i eisiau ... Dw i ddim eisiau ... Chwe deg ceiniog os gwelwch yn dda. Diolch. Chwe deg ceiniog. Diolch. Pwy sy nesa? ... Yn y sinema / Yn yr orsaf Ga i bedwar tocyn (i ...) os gwelwch yn dda? Un ... dau ... tri ... pedwar tocyn. Diolch. Deg punt os gwelwch yn dda. Deg punt.	Yn y farchnad Ga i afalau os gwelwch yn dda? Sawl un? Dau os gwelwch yn dda. Wyth deg ceiniog os gwelwch yn dda. Dyma chi. Diolch. Yn y siop Gymraeg Dw i eisiau balŵns os gwelwch yn dda. Pa liw? Dw i eisiau balŵns coch, gwyrdd a gwyn. Dyma chi. Punt os gwelwch yn dda. Diolch. Dw i eisiau cennin Pedr hefyd. Mae'n ddrwg gen i. Does dim cennin Pedr yn y siop. O, diar! Yn y pwll nofio Dau os gwelwch yn dda. Pedair punt os gwelwch yn dda. Dyma chi. Diolch. Dyma'r newid.	mewn amryw sefyllfaoedd. Bydd yr eirfa'n newid i gyd-fynd â'r sefyllfa.

GWEITHGAREDDAU TU ALLAN		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Mae'n amser mynd allan i Allan â ni. Sut mae'r tywydd? Mae'n ... Gwisgwch ... mynd am dro Dewch am dro. Beth am fynd am dro? Dilynwch fi. Byddwch yn ofalus. Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Beth wyt ti'n weld / glywed / deimlo? Beth ydych chi'n weld / glywed / deimlo? croesi'r ffordd Dyma ni ... y groesfan. Golau coch – stopia. Pwysa'r botwm. Golau gwyrdd - edrycha ... Gwranda ... Edrycha ... Gwranda ... Croesa – yn ofalus. Edrycha a gwranda. Dim ar y gornel! Dim tu ôl i'r car!	I ffwrdd â ti / chi! I ffwrdd â ni! I ffwrdd â fi! 'Nôl â fi / ni!	• wrth fynd allan, e.e. i chwarae, i gymryd rhan mewn gweithgaredd tu allan • ar ddechrau gêm neu ras neu wrth i blant adael ystafell • wrth groesi'r ffordd

GWEITHGAREDDAU TU ALLAN		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Gwrandewch ar y ... Gwrandewch ar y sŵn. Gwrande ar ... Beth ydy'r sŵn? Edrychwch ar y ... Edrychwch ar y siâp. Pa siâp? Edrychwch a gwrandewch. Edrychwch i fyny. Edrychwch i lawr. Edrychwch ar y map. Dyma'r llwybr beicio ... dyma'r môr ... dyma'r siop ... dyma'r llyn ... dyma'r coed ... Sawl coner sy yma? Amser mynd 'nôl nawr / rŵan.	Ble mae dechrau? Cerddwch ymlaen pedwar. Trowch i'r dde. Cerddwch ymlaen pump. Trowch i'r chwith.	• pan fo'n addas yn ystod y dydd • wrth ddilyn map

GWEITHGAREDDAU TU ALLAN		
Iaith a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen	P-aC ₁	Gallwch ddefnyddio'r patrymau hyn ...
Yn yr ardd Dw i'n rhoi cerrig yn y bwced. Dw i'n rhoi pridd yn y bwced. Dw i'n rhoi tatws yn y bwced. Rhaid ... Rhaid gwisgo menig. Rhaid golchi dwylo. Rhaid aros. Disgrifio blodau glas dail gwyrdd hyfryd Mae'r ardd yn hyfryd. Mae'r bwced yn llawn. Mae'r pot yn llawn.	Clirio'r sbwriel Rhaid clirio'r sbwriel. Rhaid gwisgo menig. Poteli i'r bag glas. Papur i'r bag pinc.	- yn ystod gweithgareddau sy'n ymwneud â garddio - fel y bo'n addas - gall rhaid gyfleu fi, ni, a ti a gellir ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun

GWYLIO'R DVD	
Ar ddechrau'r sesiwn	Trafod y DVD
Beth am wyllo'r DVD? Pwy sy eisiau gwyllo'r DVD? Ydych chi eisiau gwyllo'r DVD? Ydyn. / Nac ydyn. Dyma'r DVD. Barod? Gwylwch. Gwrandewch.	Beth sy'n digwydd? Beth sy'n digwydd (ar y DVD)? Ble mae Crad / Ffion? Ydy Crad yn y ffair? Ydy Crad yn y parc? Ydy e/o / hi'n hapus / ofnus / nerfus? Ydy. / Nac ydy. Beth sy yn y ffair / parc? Beth sy ar y traeth? Pam mae Crad yn gwisgo dillad Cymru? Achos mae e / o eisiau mynd i'r Diwrnod o Hwyl a Sbri.
Mynegi barn	
Ydych chi'n hoffi'r DVD? Wyt ti'n hoffi'r DVD? Ydw. Mae'n dda. Mae'n ddoniol. Mae'n hwyl. Mae'n ddiddorol. Mae'n ardderchog. Dw i'n hoffi'r ... Dw i'n hoffi'r ... yn fawr. Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddoniol ... mae'n hwyl. ... mae'n ddiddorol. Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi'r môr-ladron. ... mae'r ffair yn grêt. ... dw i'n hoffi mynd i'r parc, fel Ffion.	Nac ydw. Mae'n ofnadwy. Mae'n ddiflas. Mae'n (+ treigladd meddal) ... Dw ddim yn hoffi'r ... Dw ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas ... mae'n ofnadwy. Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi'r môr-ladron. ... mae'r ffair yn ofnadwy. ... dw i ddim yn hoffi mynd i'r parc.

DARLLEN

Yng nghefn pob llyfr, mae rhestr o'r eirfa a ddefnyddir yn y llyfr hwnnw ynghyd â phatrymau iaith y gellir eu defnyddio wrth drafod y llyfr.

Beth am argraffu'r awgrymiadau canlynol a'u cadw nhw gerllaw pan fyddwch chi'n darllen gyda'r plant?

Ar ddechrau'r sesiwn

Amser darllen.
Edrychwch, blant.
Dyma lyfr da.
Edrychwch ar y llyfr.
Dyma'r teitl.
Barod?
Gwrandewch.
Darllenwch gyda fi.
Wyt ti eisiau darllen?
Beth wyt ti eisiau darllen?
Ydych chi eisiau darllen?
Beth ydych chi eisiau darllen?
Beth am ddarllen ... ?
Syniad da!

Mynegi barn

Dw i'n hoffi'r llyfr.
Dw i'n hoffi darllen.
Wyt ti'n hoffi darllen?
Ydw. / Nac ydw.
Ydych chi'n hoffi darllen?
Ydyn. / Nac ydyn.
Beth wyt ti'n hoffi yn y llun?

Beth ydych chi'n hoffi yn y llun?
Wyt ti'n hoffi'r gerdd?
Pam?
Mae'n dda.
Mae'n hwyl.
Mae'n ddoniol.
Dw i'n hoffi'r sŵn.
Dw i'n hoffi'r siâp.

Darllen a thrafod

Trowch y dudalen.
Edrychwch ar y llun.
Pwy sy yma?
Ble mae'r ...?
Pa liw ydy'r ...?
Beth ydy hwn?
Pwy ydy hwn? / Pwy ydy hon?
Beth ydy'r rhain?
Beth sy'n digwydd?
Beth sy'n digwydd yn y llun?
Beth sy'n digwydd yn y stori?
Sawl ... sy yn y ...?
Oes ... yn y llun?
Oes. / Nac oes.

Gorffen / ail-ddarllen

Wedi gorffen.
Eto.

**Geirfa a phatrymau iaith
sy'n berthnasol i feysydd eraill o'r cwricwlwm**

ADDYSG GORFFOROL

Offer

bag ffa
bat
chwiban
esgidiau pêl-droed
gôl
parasiwt
pêl
pêl-droed
rhaff sgipio
pêl rygbi
siorts
crys T
treinyrs

Patrymau defnyddiol

Beth am ...?
Beth am chwarae gêm?
Beth am drio eto?
Ydych chi'n barod?
Pawb yn barod?
Tri ... dau ... un ...
I ffwrdd â chi.

Rhaid ...

Rhaid sefyll ar un droed.
Rhaid sefyll tu ôl i'r llinell.

Byddwch yn ofalus.

Gwrandewch.
Gwrandewch ar y miwsig.

Berfau

aros
cadw'n heini
cerdded
cicio
dal dwylo
dawnsio
dringo
eistedd
gorwedd
gwneud
gwrando
hopian
neidio
nofio
rhedeg
rholio (ar y llawr)
sefyll
sgipio
stopio
symud
troi

Sut i neidio / symud ac ati

yn gyflym / yn glou
yn araf
Symudwch yn gyflym.
Symudwch yn araf.

i fyny ac i lawr
'nôl a 'mlaen
rownd a rownd
Neidiwch i fyny ac i lawr.
Rhedwch 'nôl a 'mlaen.
Trowch rownd a rownd.

i'r dde
i'r chwith

ADDYSG GORFFOROL

Patrymau defnyddiol

Gwnewch ...

Gwnewch siâp seren.
Gwnewch siâp mawr / bach.
Gwnewch siâp hir / byr.

Nofio

pwll nofio
bag nofio
gwisg nofio
trynys nofio
tywel
gogls
bandiau braich
ystafell newid, ystafelloedd newid

Rhaid bod yn ofalus. / Byddwch yn ofalus.
Rhaid cerdded - dim rhedeg.
Dim gweiddi yn y pwll nofio.
Dim neidio.
Dim deifio.
Dim sblasio.
Dim gwthio.

Wyt ti'n gallu nofio?
Ydych chi'n gallu nofio?
Faint wyt ti'n gallu nofio?
Faint ydych chi'n gallu nofio?
Deg metr.
Dw i'n gallu nofio deg metr.

Beth am nofio i'r ...?

Beth am nofio i'r ochr arall?

Rhaid cael cawod.

Sut i neidio / symud ac ati fel ...

Symudwch fel ceffylau bach.

Rhedeg ras

Barod?
Sefwch mewn llinell.
Tri ... dau ... un ...
Ti sy'n ennill.
John yn gynta(f).
Rhian yn ail.
Alys yn drydydd.
Ardderchog.

Chwarae pêl-droed

Cicia i'r chwith / i'r dde.
Ciciwch i'r chwith / i'r dde.
Cicia'n uchel.
Ciciwch yn uchel.
Cicia'r bêl i mewn i'r gôl.
Ciciwch y bêl i mewn i'r gôl.
Rhaid cicio i'r chwith.
Rhaid cicio i'r dde.

Edrycha ar y bêl.
Edrychwch ar y bêl.
Edrycha ar y gôl.
Edrychwch ar y gôl.

Sefa yma.
... metr o'r gôl

Beth ydy'r sgôr?
Tîm A - deg gôl. Tîm B - dwy gôl.

Tîm A sy'n ennill - ond da iawn Tîm B.

ADDYSG GORFFOROL

Defnyddio parasiwt

Sefwch o gwmpas y parasiwt.

Pa liw?

Pa liwiau sy yn y parasiwt?

Ble mae coch / melyn / glas / gwyrdd?

Yma.

Fan hyn.

Codwch y parasiwt fel hyn.

Rhedwch o gwmpas gyda'r parasiwt.

Rhedwch o gwmpas **yn gyflym** gyda'r parasiwt

Rhedwch o gwmpas **yn glou** gyda'r parasiwt

Cerddwch o gwmpas gyda'r parasiwt.

Cerddwch o gwmpas **yn araf** gyda'r parasiwt.

Sgipiwch o gwmpas gyda'r parasiwt.

Melyn - rhedwch o gwmpas y parasiwt.

Coch - cerddwch o gwmpas y parasiwt.

Stopiwch.

CELF A DYLUNIO

Offer

botwm, botymau
brwsh, brwshis
clai
creon, creonau
dŵr
ffedog
ffelt
ffon
gliter
glud
gwlân
llinyn
llun
paent
papur
papur crêp
papur gwyn
papur sidan
pensil,-iau
pin rholio / rholbren
rhuban,-au
riwler / pren mesur
sialc
siswrn

Patrymau defnyddiol

Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n ...
Dw i'n peintio.
Dw i'n torri allan.
Dw i'n gludo.

Beth ydych chi'n wneud?
(Ry)dyn ni'n ...

Berfau

defnyddio
gludo
gwerthuso
lliwio
mesur
peintio
plygu
printio
pwyso
rholio
sychu
torri
troi

Trafod gwaith celf a dylunio

Dyma ...
Beth ydy hwn?
... ydy hwn.
Beth ydy'r rhain?
Coed ydy'r rhain.

Beth sy yn y llun?
Beth sy'n digwydd yn y llun?

Mae ...

CELF A DYLUNIO

Patrymau defnyddiol

Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio ...

Beth ydych chi'n ddefnyddio?
(Ry)dyn ni'n defnyddio ...

Beth am ...?
Beth am chwilio am luniau ar y we?

Rhaid gwneud ...

Pa liw?
Pa siâp?

Gwerthuso

Wyt ti'n hoffi'r ...? Ydw.
Dw i'n hoffi'r ...
Ydych chi'n hoffi'r ...?
Ydyn.

Dw i'n hoffi'r llun yn fawr.
Dw i'n hoffi'r llun achos dw i'n hoffi'r lliwiau.
Dw i'n hoffi'r llun achos dw i'n hoffi'r gwyrdd **golau** a'r gwyrdd **tywyll**.
Dw i'n hoffi'r llun achos mae e'n / o'n lliwgar.

Mae angen ... / Mae eisiau ...

Mae angen mwy o (goch).
Mae angen mwy o (wyrdd) yma.
Mae eisiau mwy o (las).
Mae eisiau mwy o (goch) yma.

Mae'n ddiddorol ond mae angen mwy o ...
Mae'n ddiddorol ond mae eisiau mwy o ...

Trafod gwaith celf a dylunio

Beth ydych chi'n gallu gweld yn y llun?
Dw i'n gallu gweld ...

Pa liwiau sy yn y llun?

Pa siapiau sy yn y llun?

Gwerthuso

hyfryd: Mae'n hyfryd.
hardd: Mae'n hardd.
ardderchog: Mae'n ardderchog.
ffantastig: Mae'n ffantastig.
da: Mae'n **dda**.
da iawn: Mae'n **dda** iawn.
lliwgar: Mae'n lliwgar.
grêt: Mae'n grêt.
gwych: Mae'n **w**ych.
diddorol: Mae'n **dd**iddorol.
bendigedig: Mae'n **f**endigedig.
effeithiol: Mae'n effeithiol.

Mae'r ... yn effeithiol.
Mae'r ... yn ardderchog.

CERDDORIAETH

Patrymau defnyddiol

Beth am gyfansoddi cerddoriaeth?
Beth am ddefnyddio'r cyfrifiadur?

Gweithiwch mewn grŵp.
Gweithiwch gyda phartner.

Amser ymarfer
Amser perfformio

Beth am berfformio cerddoriaeth?
Gwrandewch yn ofalus.

Amser canu

Wyt ti'n hoffi canu?
Ydw. / Nac ydw.
Ydych chi'n hoffi canu?
Ydyn. Nac ydyn.

Canwch gyda fi.
Canwch ar ôl tri - un ... dau ... tri ...
Canwch gyda'r piano.

Berfau

canu

chwarae
cyfansoddi
gwerthuso
gwrando
perfformio

Gwerthuso

Gwrandewch yn ofalus.
Sut wyt ti'n teimlo?
Dw i'n teimlo'n hapus / drist.

Wyt ti'n hoffi'r gerddoriaeth?
Ydych chi'n hoffi'r gerddoriaeth?
Pam?
Achos mae'n effeithiol iawn.
Achos mae'n hyfryd.
Achos mae'n wych.

Ydy'r gerddoriaeth yn araf?
Ydy'r gerddoriaeth yn gyflym / glou?
Ydy'r gerddoriaeth yn dawel?
Ydy'r gerddoriaeth yn uchel?

Ydy. / Nac ydy.

DAEARYDDIAETH

Geiriau defnyddiol

atlas
glaw
glôb
gwlad, gwledydd
haul, yr haul
llun, lluniau
map, mapiau
planed, planedau
y ddaear

Darllen map

Beth sy ar y map?
afon, afonydd
bryn, bryniau
cae, caeau
Canolfan y Mileniwm
castell
coed
coedwig
ffordd, ffyrdd
gorsaf
llwybr
llyn
môr
mynydd, mynyddoedd
parc
pentref
pont
pwll nofio
rheilffordd
siop, siopau
Stadiwm y Mileniwm
traeth
tref
ysgol, ysgolion

Berfau

chwilio am
darllen
dilyn
edrych ar
mesur

Darllen map

Edrycha ar y ...
Edrychwch ar y ...

Ble mae ...?
Ble mae Llandudno?
Ble mae'r Arctig?

Beth sy yn sgwâr A6?
Beth sy yn Llandudno?
Edrycha ar y symbolau.
Edrychwch ar y symbolau.

Dilyn map

Cerddwch at y ...
Cerddwch ymlaen (pedwar).
Ewch ymlaen (tri).
Trowch i'r dde.
Trowch i'r chwith.

DAEARYDDIAETH

Pwyntiau'r cwmpawd

gogledd
yn y gogledd
Mae Llandudno yn y gogledd.
i'r gogledd
Rhaid mynd i'r gogledd.

de
yn y de
Mae Caerdydd yn y de.
i'r de
Rhaid mynd i'r de.

[gorllewin
yn y gorllewin
Mae Aberystwyth yn y gorllewin.
i'r gorllewin
Rhaid mynd i'r gorllewin.]

[dwyrain
yn y dwyrain
Mae Lloegr yn y dwyrain.
i'r dwyrain
Rhaid mynd i'r dwyrain.]

Yr Arctig

gwlad, gwledydd
y Cylch Arctig
gogledd
yr Inuit
pobl
golau yn yr awyr
Golau'r Gogledd
hysgi, hysgwn
gaeaf: yn y gaeaf
pobl
byw
hela
pysgota

Patrymau defnyddiol

Sut mae'r tywydd yn y gogledd?

Chwiliwch mewn llyfrau.
Chwiliwch ar y we.
Chwiliwch am lun / luniau.
Tynnwch lun ...
Gwnewch fap o ...

Teithio

mewn car
mewn bws
mewn tacsï
mewn lori
mewn roced

Patrymau defnyddiol

Mae'n dywyll. / Mae hi'n dywyll.
Mae'n / Mae hi'n oer iawn, iawn.
Does dim golau o'r haul.

Dyma ...

Mae'r Inuit yn ...
Maen nhw'n byw mewn ...
Maen nhw'n gwisgo ...
Maen nhw'n bwyta ...
Maen nhw'n hela.
Maen nhw'n pysgota.

DYLUNIO A THECHNOLEG: Bwyd

Offer

bwrdd
cwpan
cyllell
fforc
llwy
menig
oergell
pin rholio
plât
powlen
rhewgell
rysâit

Faint?

gram, gramau
pum deg gram

mw y o (+ treigladd meddal) ...

Dw i eisiau mw y o ...
Dw i eisiau mw y o **dd**ŵr.
Rhaid rhoi mw y o **fen**yn ar y bara.

Mae eisiau mw y o ...
Mae angen mw y o ...

Gwneud brechdanau:

Dw i'n rhoi menyn ar y bara.
Dw i'n golchi'r tomato.
Dw i'n sychu'r tomato.
Dw i'n rhoi'r tomato ar y bara.

Dw i'n rhoi'r bara ar y tomato.

Dw i'n torri – yn ofalus.

Berfau

cael (help)
coginio
cymysgu
defnyddio
golchi
gwerthuso
gwneud
paratoi
pilio / plicio
pwyso
rhoi
rholio
torri
troi

Pwyswch y ...
Rhowch y ... yn y ...
Cymysgwch y ...

Disgrifio:

Bendigedig!
Blasus!
Mae'n flasus.
Mae'n flasus iawn.
Ych a fi!

Gwneud brechdanau:

Rhaid:

Rhaid golchi dwylo.
Rhaid torri'r tomato – yn ofalus.

Rhaid rhoi'r tomato ar y bara.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Offer

botwm, botymau
brwsh, brwshis
cerdyn
clai
creon, creonau
ffedog, ffedogau
ffelt
ffon, ffyn
glud
gwelltyn, gwellt
gwlân
llinyn
paent
papur
papur crêp
papur gwyn
papur sidan
pensil,-iau
pren
riwler / pren mesur
siswrn

Patrymau defnyddiol

Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n ...
Dw i'n peintio.
Dw i'n torri allan.
Dw i'n gwneud model.

Beth ydych chi'n wneud?
(Ry)dyn ni'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio ...
Beth ydych chi'n ddefnyddio?
(Ry)dyn ni'n defnyddio ...

Berfau

addurno
braslunio
cymysgu
defnyddio
dylunio
gludo
gwneud
gwneud siâp
mesur
plygu
torri
tynnu llun
tynnu llinell

Rhaid ...

Rhaid mesur yn ofalus.
Rhaid mesur o'r pwynt yma.

Rhaid tynnu llinell yn ofalus.
Rhaid torri allan yn ofalus.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Patrymau defnyddiol

Beth am ...?

Beth am chwilio am luniau ar y we?

Rhaid gwneud ...

Pa liw?

Pa liwiau?

Pa siâp?

Gwerthuso

Wyt ti'n hoffi'r ...? Ydw.

Dw i'n hoffi'r ...

Ydych chi'n hoffi'r ...?

Ydyn.

Dw i'n hoffi'r model yn fawr.

Dw i'n hoffi'r model achos dw i'n hoffi'r siâp.

Gwerthuso

hyfryd: Mae'n hyfryd.

hardd: Mae'n hardd.

ardderchog: Mae'n ardderchog.

ffantastig: Mae'n ffantastig.

da: Mae'n **dda**.

da iawn: Mae'n **dda** iawn.

lliwgar: Mae'n lliwgar.

grêt: Mae'n grêt.

gwych: Mae'n **wych**.

diddorol: Mae'n **ddiddorol**.

bendigedig: Mae'n **fendigedig**.

effeithiol: Mae'n effeithiol.

Mae'r ... yn effeithiol.

Mae'r ... yn ardderchog.

GWYDDONIAETH	
--------------	--

Patrymau defnyddiol
Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n ...
Beth ydych chi'n wneud?
Rydyn ni'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio ...
Beth ydych chi'n ddefnyddio?
Rydyn ni'n defnyddio ...

Beth am wneud arbrawf?
Ydych chi eisiau gwneud arbrawf?
Ydyn. / Nac ydyn.
Bydda'n ofalus.
Byddwch yn ofalus.

Chwilia / chwiliwch am wybodaeth.
Chwilia / chwiliwch ar y we.
Tynna / Tynnwch lun.
Ysgrifenna / Ysgrifennwch am ...

Bwyd iach
bara brown
caws
cig
ffrwythau
grawnfwyd
iogwrt
llaeth
llysiau
pysgod
tiwna
wyau
dim llawer

bara brown
caws
cig
ffrwythau
grawnfwyd
iogwrt
llaeth
llysiau
pysgod
tiwna
wyau
dim llawer

Patrymau defnyddiol

Edrychwch yn ofalus ar y ...
Beth sy'n digwydd?

Gwrandewch ar y ...
Teimlwch y ...
Ydy e'n / o'n ...?

Dyma'r ...

Beth wyt ti'n gallu gweld?
 clywed?
Beth ydych chi'n gallu gweld?
 clywed

Wyt ti wedi gorffen?
Ydw. / Nac ydw.
Ydych chi wedi gorffen?
Ydyn. / Nac ydyn.

Patrymau defnyddiol

Ydy ... yn dda i ti / chi?
Ydy. / Nac ydy.
Mae ffrwythau'n dda i ti.

Rhaid cael bwyd iach.
Rhaid bwyta bwyd iach.

Mae nofio'n dda i chi.

Mae nofio'n dda i chi.

GWYDDONIAETH

Tywyll a golau

tywyll

golau

swits

tortsh

lamp

bwlb

ffôn

cyfrifiadur

cannwyll

matsis

peryglus

cysgod

llygad, llygaid

mynd i mewn i

haul, yr haul

seren, sêr

yn bell, bell i ffwrdd

Rhewi

thermomedr

gradd Celsius

sero gradd Celsius

rhoi

rhewgell

aros

troi

rhew

wedi rhewi

dŵr wedi rhewi

pys wedi rhewi

moron wedi rhewi

Mae'n oer.

Mae'n gynnes.

Patrymau defnyddiol

Mae'n dywyll.

Mae'n olau.

O ble mae'r golau'n dod?

O'r ...

Mae'r golau'n dod o'r ...

Mae'n dywyll. Does dim golau'n mynd i mewn i'r llygaid.

Mae'r golau'n mynd i mewn i'r llygaid nawr / rŵan.

Dyma'r haul.

Rydyn ni'n cael golau o'r haul.

Patrymau defnyddiol

Rhaid rhoi ... yn y ...

Rhaid rhoi dŵr yn y botel.

Rhaid rhoi'r botel yn y rhewgell.

Rhaid aros.

Dyma ni.

Dyma ni ... rhew.

Dyma ni ... mae'r dŵr wedi rhewi.

Mae'r dŵr wedi troi'n rhew.

Mae'r rhew wedi troi'n ddŵr.

Edrycha ar y ...

Edrychwch ar y ...

GWYDDONIAETH

Yr amgylchedd

sbwriel
 potel (y botel), poteli
 papur, papurau
 bocsy, bocsys
 dillad
 gwydr
 plastig

bag, bagiau
 bin, biniau

clirio
 ailgylchu
 ailddefnyddio

Patrymau defnyddiol

Rhaid clirio'r sbwriel.
 Rhaid gwisgo menig (i glirio'r sbwriel).
 Rhaid defnyddio ffon sbwriel.

Poteli gwydr i'r bag (glas).
 Papur i'r bag ...
 Rhaid rhoi dillad yn y bag yma.

HANES

Y Celtiaid

Y pentref

afon
anifail, anifeiliaid
ar y bryn
cae, caeau
castell
coed
dafad, defaid
ffrwythau
gardd (yn yr ardd)
llwybr
llysiau
mochyn, moch
perllysiau

tŷ crwn, tai crwn

basged
blanced (y flanced)
bwrdd
crochan
drws
gwely
tân
wal

Arall

Celtaidd
dillad
broetsh
patrwm
patrwm Celtaidd
hen
hen iawn, iawn
stori, storïau

brenin
tywysog

Berfau

byw
bwyta
garddio
gwneud dillad
gwneud bwyd
dweud stori
gwrando ar stori
cael stori

Patrymau defnyddiol

Edrycha ar y tŷ crwn.
Edrychwch ar y wal.
Dyma'r ...

Roedd ...
Roedd y Celtiaid yn byw mewn tai crwn.
Roedd y Celtiaid yn bwyta ...
Roedd y Celtiaid yn hoffi ...
Roedd y Celtiaid yn gwisgo ...
Roedd y Celtiaid yn ...

Beth sy yn y tŷ crwn?
Beth sy yn y llun?
Beth sy yn y crochan?
Beth sy yn y cae?

Chwiliwch am ...
tynnu llun

MATHEMATEG: Rhifau

1 – 10			11-20			21-30		
un	1		un deg un	11		dau ddeg un	21	
dau	2		un deg dau	12		dau ddeg dau	22	
tri	3		un deg tri	13		dau ddeg tri	23	
pedwar	4		un deg pedwar	14		dau ddeg pedwar	24	
pump	5		un deg pump	15		dau ddeg pump	25	
chwech	6		un deg chwech	16		dau ddeg chwech	26	
saith	7		un deg saith	17		dau ddeg saith	27	
wyth	8		un deg wyth	18		dau ddeg wyth	28	
naw	9		un deg naw	19		dau ddeg naw	29	
deg	10		dau ddeg	20		tri deg	30	
31-40			41-50			51-60		
tri deg	+ un	31	pedwar deg	+ un	41	pum deg	+ un	51
	+ dau	32		+ dau	42		+ dau	52
	+ tri	33		+ tri	43		+ tri	53
	+ pedwar	34		+ pedwar	44		+ pedwar	54
	+ pump	35		+ pump	45		+ pump	55
	+ chwech	36		+ chwech	46		+ chwech	56
	+ saith	37		+ saith	47		+ saith	57
	+ wyth	38		+ wyth	48		+ wyth	58
	+ naw	39		+ naw	49		+ naw	59
pedwar deg		40	pum deg		50	chwe deg		60
71-80			81-90			91-100		
saith deg	+ un	71	wyth deg	+ un	81	naw deg	+ un	91
	+ dau	72		+ dau	82		+ dau	92
	+ tri	73		+ tri	83		+ tri	93
	+ pedwar	74		+ pedwar	84		+ pedwar	94
	+ pump	75		+ pump	85		+ pump	95
	+ chwech	76		+ chwech	86		+ chwech	96
	+ saith	77		+ saith	87		+ saith	97
	+ wyth	78		+ wyth	88		+ wyth	98
	+ naw	79		+ naw	89		+ naw	99
wyth deg		80	naw deg		90	cant		100
10-0								
	deg	10						
	naw	9						
	wyth	8						
	saith	7						
	chwech	6						
	pump	5						
	pedwar	4						
	tri	3						
	dau	2						
	un	1						
	sero	0						

MATHEMATEG

Sawl...?

Sawl un?
Sawl llyfr?
Sawl ochr?
Sawl coes?

Arian / Pres Faint?

Faint o arian?

... ceiniog
deg ceiniog
dau ddeg ceiniog
tri deg ceiniog
pedwar deg ceiniog
pum deg ceiniog

punt
dwy **bunt**
tair punt
pedair punt
pum punt

Siâp, siapiau

cylch
hanner cylch
triongl
sgwâr
petryal
pentagon
hecsagon
octagon
silindr
côn
ochr

Pâr

pâr o esgidiau
pâr o sanau
wyth – pedwar pâr

Patrymau defnyddiol

Pa siâp?
Pa siâp ydy hwn?

Cylch.
Cylch ydy hwn.
Pentagon ydy hwn.

Sawl ochr?
Pum(p) ochr.

Dw i'n tynnu llinell.

MATHEMATEG: Trafod yr amser

Pryd mae'r trê yn mynd?
 am (+ treiglad meddal) ...
 am un o'r gloch
 am **ddau** o'r gloch
 am **dri** o'r gloch
 am **bedwar** o'r gloch
 am **bump** o'r gloch
 am chwech o'r gloch
 am saith o'r gloch
 am wyth o'r gloch
 am naw o'r gloch
 am **dddeg** o'r gloch
 am un ar ddeg o'r gloch
 am **ddeuddeg** o'r gloch

eiliad
 munud
 awr

Faint o'r gloch ydy hi?
 Dau o'r gloch.
 Tri o'r gloch.

Mae hi'n (+ treiglad meddal)
 Mae hi'n un o'r gloch.
 Mae hi'n **ddau** o'r gloch.
 Mae hi'n **dri** o'r gloch.
 Mae hi'n **bedwar** o'r gloch.
 Mae hi'n **bump** o'r gloch.
 Mae hi'n chwech o'r gloch.
 Mae hi'n saith o'r gloch.
 Mae hi'n wyth o'r gloch.
 Mae hi'n naw o'r gloch.
 Mae hi'n **dddeg** o'r gloch.
 Mae hi'n un ar ddeg o'r gloch.
 Mae hi'n **ddeuddeg** o'r gloch.

chwarter wedi ...
 chwarter wedi tri
 Mae hi'n chwarter wedi tri.

hanner awr wedi ...
 hanner awr wedi tri
 Mae hi'n hanner awr wedi tri.

am hanner awr wedi tri
cyn hanner awr wedi tri

MATHEMATEG

Mesur

riwler, pren mesur
ffon fesur
olwyn fesur
clipfwrdd
hir
byr

milimetr
centimetr
metr

Beth am fesur y ...?
Rhaid mesur yn ofalus.
Rhaid mesur o'r pwynt yma.

Mesurwch yn ofalus.
Mesurwch y llinell.
Mesurwch o'r pwynt yma.

Sawl centimetr?
(Deg) centimetr.
(Deg) centimetr wrth wyth centimetr.

Sawl metr?
Un metr.
Dau metr.
Tri metr.
Pedwar metr.

Ysgrifennwch yr ateb.

Pwyso

Pwyswch y ...
gram

Y tymheredd

thermomedr
gradd Celsius
sero gradd Celsius
minws pum(p) gradd Celsius
minws deg gradd Celsius
minws un deg pum(p) gradd Celsius

wedi rhewi

Edrycha ar y thermomedr.
Edrychwch ar y thermomedr.

Beth ydy'r tymheredd?
Ydy hi'n oer?
Ydy hi'n gynnes?

Adio

Faint ydy ... a ...?
Faint ydy naw ac un deg un?

Lluosi

Mae un biro'n costio punt. Faint ydy
pum(p) biro?
Mae un CD yn costio pum punt.
Faint ydy dau CD?

Mae un person yn talu punt i fynd
i'r pwll nofio. Faint mae dau berson
yn talu?

Arall

Beth am wneud holiadur?
Beth am wneud grid?
Llenwch yr holiadur.
Llenwch y grid.
Ysgrifennwch yr atebion yn y grid

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Offer

camera
gwe-gamera
cyfrifiadur
disg
teledu
radio

Patrymau defnyddiol

Beth am ddefnyddio'r cyfrifiadur?
Syniad da.
Wyt ti eisiau chwarae gêm
ar y cyfrifiadur?
Ydw, os gwelwch yn dda.
Nac ydw, dim diolch.
Wyt ti eisiau chwarae gêm
ar y cyfrifiadur?
Ydyn, os gwelwch yn dda.
Nac ydyn, dim diolch.
Taflwch y disg.
Dechreuwch.
Dangoswch.
Symudwch.
Cliciwch.
Llusgwch.
Gorffennwch y frawddeg.
Cysylltwch y geiriau.
Cysylltwch y gair a'r llun.
Atebwch y cwestiynau.
Ymlaen ...
'Nôl ...
'Nôl i'r gêm.

Gorchmynion

Edrycha ar y sgrin.
Edrychwch ar y sgrin.
Edrycha ar y we.
Edrychwch ar y we.
Clicia.
Cliciwch.
Clicia yma.
Clicia ar y ...
Pwysa.
Pwyswch.
Tria eto.
Triwch eto.

Lawrlwytho

Lawrlwythwch y llun.
Lawrlwythwch y map.

Edrychwch - llun o'r cyfrifiadur.

e-bost

Mae e-bost ar y cyfrifiadur.
Beth am anfon e-bost ?

